

Hafan  
Pori  
Awduron A-Z  
Chwiliad testun rhydd  
Chwiliad testun rhydd

English

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

## IEUAN ap HYWEL SWRDWAL (fl. 1430-80), bardd

**Enw:** Ieuan ap Hywel Swrdwal

**Rhiant:** Hywel Swrdwal

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd

**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth

**Awdur:** Elwyn Evans

mab i'r bardd **Hywel Swrdwal**. Cysylltir y tad a'r mab â Chydeuain ac â'r Drenewydd; dywedir iddynt fyw hefyd ym Machynlleth. Ymhlith y cerddi a briodolir i Ieuan ceir awdl i'r Forwyn Fair yn Saesneg ac mewn cynganedd ac orgraff Cymraeg - sef ' Owdyl i Fair a wnaeth kymbro yn Rhudychen ... ', yn dechrau ' O meichti ladi our leding tw haf.' Ceir marwnadau iddo gan **Hywel ap Dafydd ap Ieuan ap Rhys**, **Llewelyn Goch y Dant**, a **Gruffydd ap Dafydd Fychan**. Y mae traddodiad iddo ef, fel ei dad, ysgrifennu hanes Cymru o amser **Cadwaladr** hyd amser Harri VI, ond nid yw'r gwaith ar gael.

### Awdur

Elwyn Evans

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

H. Blackwell, NLW MSS 9261A: A Dictionary of Welsh Biography

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ieuan ap Hywel Swrdwal

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 93464489

Wikidata: Q11137999

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Evans, E., (1953). IEUAN ap HYWEL SWRDWAL (fl. 1430-80), bardd. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 9 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-IEUA-APH-1430>

Canol

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government